



Eich cyf/Your ref P-05-1079
Ein cyf/Our ref LG/02826/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

23 Rhagfyr 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Tachwedd 2020 ynghylch y ddeiseb i warchod Gwarchodfa Natur Cynffig.

Yn anffodus, nid oedd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn gallu dod i gytundeb gydag Ymddiriedolaeth Corfforaeth Cenffig ynghylch prydles hirdymor gan nad oedd modd cytuno ar yr hawliau pori. Mae'r hawliau pori yn rhan o gyfansoddiad yr Ymddiriedolaeth ac mae'n bosibl eu bod o werth ariannol sylweddol. Nid oedd yn fodlon newid ei safbwynt o ran hyn. Golygai hyn fod yr Ymddiriedolaeth wedi cadw hawliau unigryw ar benodi unrhyw borwr yn ogystal â chadw hawliau i arfer yr hawliau ei hun. Ni fyddai CNC felly wedi cael rheolaeth dros agwedd hollbwysig ar ofynion rheoli'r safle. Mae'r risg fwyaf o ddiraddio i'r safle hwn yn debygol o ddeillio o bori amhriodol (gormod neu dim digon), felly mae rheoli'r safle yn gysylltiedig yn y bôn â rheoli'r hawliau pori.

Yn dilyn trafodaeth bellach rhwng y ddwy ochr, mae Ymddiriedolaeth Corfforaeth Cynffig (KCT) wedi penderfynu rheoli'r safle ei hun gyda chefnogaeth CNC ac mae CNC wedi cyhoeddi'r datganiad a ganlyn yn y cyfryngau cymdeithasol yn ddiweddar:

“Cynhaliwyd cyfarfod yn ddiweddar yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ymddiriedolaeth Corfforaeth Cynffig i drafod pa drefniadau sydd angen eu rhoi yn eu lle i sicrhau bod y nodweddion arbennig yn y Warchodfa yn cael eu diogelu.

I helpu i gyflawni'r gwaith cadwraeth angenrheidiol yn y Warchodfa, mae'r Ymddiriedolaeth wedi penderfynu defnyddio gwasanaethau arbenigwr a fydd yn gallu rheoli'r Warchodfa, gyda Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi cymorth a chefnogaeth i recriwtio'r ymgeisydd cywir ar gyfer y swydd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth i sefydlu cytundeb rheoli a fydd yn llywio'r arferion gwaith i gefnogi'r amrywiaeth gyfoethog o fywyd gwylt yng Ngwarchodfa Natur Cynffig."

Fel perchnogion y safle, mae gan KCT hawl i'w reoli ei hunan ac mae'r sefyllfa bresennol yn awgrymu ei fod yn barod i wneud hynny o dan gytundeb â CNC a fydd sicrhau'r canlyniadau sydd eu hangen. Yn ei hanfod, bydd CNC yn helpu KCT i benodi warden ac yna cyhoeddi cytundeb rheoli blynyddol i KCT i gyflawni gweithgareddau rheoli penodol yn gyfnewid am dâl.

Er bod gwaith trafod i'w wneud o hyd, a'r manylion yn dal i fod yn gyfrinachol yn fasnachol, rydym yn obeithiol ar hyn o bryd y bydd gennym ddatrysiaid erbyn y Flwyddyn Newydd, gan olygu nad oes angen ystyried prynu gorfodol ar y safle.

Yn Gywir,



Lesley Griffiths AS/MS

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.